**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2010-11 a Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad 2009-10

Hydref 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Fin.Comm@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2010-11 a Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad 2009-10

Hydref 2009

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns**
**Cadeirydd**
Gorllewin Caerfyrddin a
De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Mohammad Asghar**
Dwyrain De Cymru
Plaid Cymru



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur



**Christopher Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Huw Lewis**
Merthyr Tudful a Rhymni
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur



**Kirsty Williams**
Brycheiniog a Sir Faesyfed
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru

# Cynnwys


| | Paragraffau |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1-4 |
| Cyllideb Atodol 2009-10 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 5-9 |
| GEN-LD7705 - Cynigion Cyllideb Ddrafft 2010-11 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 10-31 |
| Casgliadau | 32-34 |

# Crynodeb o'r argymhellion

| Paragraff | Argymhellion |
|---|---|
| 7 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn yr angen am y datblygiad TGCh arfaethedig hwn ac mae'n croesawu agwedd hirdymor y Comisiwn ag at y buddsoddiad hwn. Hoffai'r Pwyllgor Cyllid weld canlyniadau profion rhesymoldeb Swyddfa Archwilio Cymru. |
| 9 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn i Gomisiwn y Cynulliad ystyried paratoi papur esboniadol llawn ochr yn ochr ag unrhyw gyllidebau atodol yn y dyfodol. |
| 23 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell y dylai'r Comisiwn roi'r gorau i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn yn y ffordd y bu'n ei defnyddio. |
| 25 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn i Gomisiwn y Cynulliad egluro ai goramcangyfrifon yn unig yw'r arbedion a nodir yn Atodiad 5 o Adroddiad Rheolaeth Ariannol 30 Mehefin 2009 neu a ydynt yn arbedion 'effeithlonrwydd' gwirioneddol. |
| 27 | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwneud yr argymhellion a ganlyn i helpu i wella tryloywder cyllidebau yn y dyfodol:<br><br>• Dylai llinellau cyllideb ddangos amcangyfrif gorau Comisiwn y Cynulliad o'r costau sy'n debygol o godi. Lle bo elfen o ansicrwydd o ran y costau (ee cost setliadau cyflog yn y dyfodol, faint o staff sy'n cael eu recriwtio), dylid nodi hynny'n glir;<br><br>• Dylid cynnwys arbedion a gynlluniwyd sy'n hysbys pan gaiff y gyllideb ei phennu yn y llinellau cyllideb addas o'r cychwyn a dylid eu hegluro yn y papur ar y gyllideb;<br><br>• Dylid ychwanegu cronfa ddarbodus wrth gefn i'r gyllideb i'w defnyddio ar gyfer gwariant gwirioneddol nas rhagwelwyd ac na chynlluniwyd ar ei gyfer. Yn unol â hynny, dylid ailasesu swm yr arian wrth gefn yng ngoleuni'r maen prawf newydd hwn;<br><br>• Yn ogystal, os nad oes digon o arian wrth gefn yn y gronfa wrth gefn mewn gwirionedd, mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu ynglŷn â chadernid cyllideb y Comisiwn;<br><br>• Dylid addasu trefniadau mewnol y Comisiwn ar gyfer rheoli'r gyllideb fel eu bod yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer awdurdodi trosglwyddo arian rhwng penawdau'r gyllideb yng ngoleuni'r wybodaeth uchod; |

- Dylid neilltuo arbedion mewn llinellau cyllideb sy'n ychwanegol i'r rheini sydd wedi cael eu cynnwys o'r dechrau yn glir i linellau cyllideb eraill lle na ellir osgoi gorwario, neu eu rhyddhau i'r gyllideb floc ehangach a'u hegluro yn y cyfrifon blynyddol. Lle nodir arbedion o'r fath yn ystod y flwyddyn, dylid gostwng y symiau a neilltuwyd i ddeiliaid y gyllideb cyn gynted â phosibl;

- Dylid talu am unrhyw orwariant na ellir ei osgoi ar linellau cyllideb gan ddefnyddio arbedion y disgwylir eu gwneud mewn llinellau cyllideb eraill cyn i'r arian gael ei drosglwyddo i'r gronfa arian wrth gefn;

- Yn gyffredinol, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn disgwyl i gyllideb y Comisiwn fod yn ddigonol iddo allu darparu lefel gwasanaeth y mae gan y Cynulliad hawl iddo, a fydd yn cynnwys swm tryloyw addas ar gyfer costau gwirioneddol wrth gefn ond nid unrhyw symiau wrth gefn cudd eraill. (Para 27)

28 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn i'r ffigurau o fewn y cynnig cyllideb gael eu hailgyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid erbyn diwedd y flwyddyn galendr ar y sail a ddisgrifir uchod fel bod darlun tryloyw llawn o gynlluniau'r Comisiwn a llinell sylfaen glir ar gyfer cylch y gyllideb y flwyddyn nesaf.

30 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell, yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Taliadau, y dylai fod gan y Comisiwn symiau wedi'u hawdurdodi ar wahân ar gyfer (a) gwariant a osodir gan y Bwrdd a (b) gweddill yr arian a fydd yn parhau i fod o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn.

31 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn i gynigion cyllideb yn y dyfodol gael eu hategu gan wybodaeth ddigonol, sy'n ddigon tryloyw, fel nad oes angen papur briffio ychwanegol.

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID

**GEN-LD7705 – Cynigion Cyllideb Ddrafft 2010-11 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

a

**Chyllideb Atodol 2009-10 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Cefndir

Dywed Rheol Sefydlog 27:

*27.7 Heb fod yn hwyrach na 24 Medi ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru.*

*27.8 Rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried cyllideb ddrafft y Comisiwn a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ei chylch heb fod yn hwyrach na thair wythnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad…*

### Cyflwyniad

1. Trafododd y Pwyllgor Cyllid Gyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2009. Gosodwyd y gyllideb ddrafft ar 22 Medi 2009.

2. Yn y cyfarfod, clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan:

   - Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas – y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
   - Claire Clancy – Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
   - Dianne Bevan – Prif Swyddog Gweithredu
   - Steven O'Donoghue – Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad

3. Yn y cyfarfod ar 28 Medi, cyflwynodd Comisiwn y Cynulliad ddogfen arall, 'Papur Briffio Ategol', a oedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am lawer o'r ffigurau yn y gyllideb ddrafft ac yn eu hegluro ymhellach. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Prif Weithredwr a'r Clerc (ar 1 Hydref) at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ymateb i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod. Anfonwyd llythyr arall o eglurhad a ddaeth i law ar 9 Hydref 2009.

4. Yn ogystal â thrafod cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2010-11, clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth hefyd ar gyllideb atodol 2009-10, a gafodd ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Atodol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 14 Gorffennaf 2009 (GEN-LD7634 – Cynnig Cyllideb Atodol 2009-10)

## *Cyllideb atodol 2009-10*

5. Cyfanswm cyllideb adnoddau wreiddiol y Comisiwn ar gyfer 2009-10 oedd £47.751m - sef cynnydd o 3.4% ar y swm a awdurdodwyd ar gyfer 2008-09. Nododd y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2009-10, a gafodd ei osod ym mis Hydref 2008, nifer o ddatblygiadau posibl a allai effeithio ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno, gan gynnwys adolygiad o bwys o wasanaethau sy'n ymwneud â TGCh. Bryd hynny, nid oedd yn bosibl amcangyfrif yn gywir costau posibl y datblygiadau hyn, er bod y Comisiwn wedi datgan ei bod yn debygol y byddai'r costau TGCh yn rhai sylweddol a'i fod wedi rhybuddio ei bod yn bosibl y byddai'n rhaid iddo ystyried gwneud cais am gyllideb atodol yn ystod 2009-10.

6. Mae Cyllideb Atodol y Comisiwn ar gyfer 2009-10 yn gwneud cais am £1.950m yn ychwanegol i ariannu'n rhannol y gwaith o greu rhwydwaith TG unedig a fydd yn gwahanu strwythur TGCh y Cynulliad a strwythur y Llywodraeth ac yn cyfuno systemau'r Aelodau â rhai'r Comisiwn. Mae disgwyl i'r gwaith, a fydd yn costio £2.667m, gael ei wneud i raddau helaeth yn y flwyddyn ariannol bresennol a bwriedir i'r £0.717m sy'n weddill gael ei dalu gan ddefnyddio'r arian wrth gefn ac arbedion. Hysbysodd y Comisiwn y Pwyllgor Cyllid ei bod yn anorfod y byddai'r gwaith yn cael ei wneud rhywbryd yn y dyfodol ac y byddai ei gwblhau'n gynnar, yn 2009-10, yn golygu arbedion o £900,000 o leiaf. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno i brofi rhesymoldeb y tybiaethau ariannol sy'n cefnogi penderfyniad y Comisiwn.

7. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn bod angen gwneud y gwaith hwn ac mae'n croesawu agwedd hirdymor y Comisiwn ag at y buddsoddiad hwn. Hoffem weld **canlyniadau profion rhesymoldeb Swyddfa Archwilio Cymru.** Rydym yn gwneud sylwadau pellach am y defnydd o arian wrth gefn ac arbedion effeithlonrwydd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

8. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Comisiwn am fod yn agored drwy ein hysbysu ynglŷn â'r gyllideb atodol bosibl yn y papur gwreiddiol ar y gyllideb ac mewn llythyr at y Cadeirydd ym mis Gorffennaf 2009. Rydym yn nodi bod cynigion cyllideb ddrafft 2010-11 wedi cynnwys rhai manylion ynglŷn â chyllideb atodol 2009-10.

### Gweithdrefn

9. Ar bwynt cyffredinol yn ymwneud â gweithdrefnau, rydym yn nodi nad yw'r Rheolau Sefydlog yn datgan bod yn rhaid i'r Comisiwn baratoi papur ffurfiol ar y gyllideb atodol. Yn y dyfodol, efallai na fydd y terfynau amser yn caniatáu i gais am gyllideb atodol gael ei egluro o fewn cynigion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Er y byddai unrhyw adnoddau ychwanegol y mae'r Comisiwn yn

gofyn amdanynt, wrth gwrs, yn cael eu cynnwys o fewn cynnig ffurfiol y gyllideb atodol a osodir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn credu y byddai'n arfer da i'r Comisiwn baratoi papur esboniadol llawn sy'n egluro unrhyw newidiadau a'r rhesymau drostynt. Gellid gosod y papur hwn ochr yn ochr â'r cynnig ffurfiol yn y gyllideb atodol, i'w trafod gan y Pwyllgor Cyllid. **Gofynnwn i'r Comisiwn ystyried yr awgrym hwn ar gyfer cyllidebau atodol yn y dyfodol**.

## *Cynigion Cyllideb Ddrafft 2010-11*

### Cyflwyniad

10. Hysbysodd y Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, y Pwyllgor Cyllid fod y Comisiwn, wrth gynllunio cyllideb ddrafft 2010-11, am sicrhau twf a gwelliannau cynaliadwy drwy gael cynnig cyllideb sy'n gynnil ac wedi'i unioni. Pwysleisiodd y ffaith na allent anwybyddu cyd-destun ehangach gwariant cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt, nac effeithiau hyn ar floc Cymru'n benodol.

11. Dywedodd y Llywydd fod y Comisiwn yn chwilio am arbedion i ariannu rhan o'r twf mewn prosiectau a'i fod yn bwriadu datblygu gwasanaethau heb ofyn am fwy o adnoddau. Roedd wedi cynllunio ar gyfer arbedion o £400,000, ac roedd wedi arbed oddeutu £1m drwy ail-alinio cyllidebau yn dilyn adolygiad cyfrifyddu mewnol o'i gyllideb sylfaenol.

### Y gyllideb gyffredinol

12. Mae'r Comisiwn wedi cynnig cyllideb gyffredinol o £48.973m – cynnydd o £1.2m, neu 2.6 y cant, ar y gyllideb o £47.751m a awdurdodwyd ar gyfer 2009-10. Fodd bynnag, gan ystyried y gyllideb atodol o £1.95m ar gyfer 2009-10, sy'n diwygio cyllideb 2009-10 i £49.701m, mae'r cynigion ar gyfer 2010-11 yn cynrychioli gostyngiad o £0.728m, neu 1.5 y cant, ar gyllideb 2009-10.

13. Mae'r Comisiwn yn nodi bod y cynnydd o £1.2m yn ei gynigion cyllideb ar gyfer 2010-11 yn cynnwys dwy ran: gwariant ar wasanaethau'r Comisiwn a Chyflogau a Lwfansau Aelodau (£2.968m), a thaliadau heb fod yn rhai ariannol (£0.868m). Gwrthbwysir y rhain gan arbedion o £2.614m.

14. Nodir manylion cynigion y gyllideb yn y cynnig Cyllideb.

### Agwedd gyffredinol

15. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod ac yn cefnogi'n frwd ymrwymiad y Comisiwn i sicrhau twf a gwelliannau cynaliadwy o fewn cais cyllideb cynnil. Er gwaetha'r amgylchiadau economaidd, mae'n hanfodol bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl bob tro. Mae rheoli da yn ymwneud â sicrhau y ceir y budd mwyaf o arian y trethdalwyr. Yn y cyd-destun hwnnw, mae gan y Pwyllgor Cyllid rai amheuon ynglŷn â bwriad y

Comisiwn i danwario'i gyllideb. Er ein bod yn cydnabod y byddai gwario mwy na'r hyn sydd yn y gyllideb adnoddau a awdurdodwyd yn arfer afreolaidd, mae'r Pwyllgor Cyllid yn credu y byddai'n llawer gwell pe bai'r Comisiwn yn ceisio cyllidebu'n gywir. Wrth gwrs, dylai geisio gwneud arbedion cost drwy gydol y flwyddyn, ond gallai cyfeiriad o'r fath at danwario awgrymu bod cyllideb uwch nag sydd ei hangen wedi cael ei gosod yn fwriadol ac, yn ei dro, byddai hynny'n arwain at gael llai o adnoddau ar gyfer rhaglenni eraill (neu i'r trethdalwr eu cadw). Mae rheolaeth ariannol dda yn ymwneud cymaint â chynllunio ariannol ag y mae â rheolaeth ariannol.

**Tanwariant yn llinell sylfaen 2008-09**

16. Nododd y Pwyllgor Cyllid bod cyfrifon 2008-09 y Comisiwn yn dangos tanwariant o £2.2m (4.7%). Mae cynigion cyllideb ddrafft 2010-11 yn nodi bod y tanwariant hwn yn cynnwys:

- 1.8% mewn perthynas â Chyflogau a Lwfansau Aelodau oherwydd llai o newidiadau nag a ddisgwyliwyd yn y ddarpariaeth bensiwn (0.6%); costau llai nag a ddisgwyliwyd sy'n ymwneud â chyflogau Aelodau'r Cynulliad (0.3%); a llai o wariant nag a ddisgwyliwyd ar lwfansau Aelodau'r Cynulliad (0.9%). Rydym wedi cynnwys y tanwariant hwn yn ein rhagdybiaethau ar gyfer 2010-11;

- 1.1% mewn perthynas â gwasanaethau'r Comisiwn, yn bennaf oherwydd na fu'n rhaid defnyddio'r holl arian wrth gefn;

- 1.8% mewn perthynas â dibrisiant a thaliadau llog tybiannol o ganlyniad i orbrisio'r rhagolygon costau.

17. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ei bod yn ymddangos y cafwyd amcangyfrif rhy isel mewn perthynas â Chyflogau a Lwfansau Aelodau o ganlyniad i'r ffaith na wariwyd y swm yn yr amcangyfrifon yn hytrach nag o ganlyniad i unrhyw weithred benodol i gyflwyno'r un canlyniadau mewn ffordd fwy effeithiol. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod yr anawsterau o ran cynllunio ar gyfer gwariant o'r fath sy'n seiliedig ar alw. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi'r camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i wella ei ragolygon ar gyfer gwariant ar ddibrisiant a thaliadau llog tybiannol.

**Defnyddio'r gronfa wrth gefn**

18. Nododd y Pwyllgor Cyllid nad oedd cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2010-11 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer pwysau cost penodol, gan gynnwys setliadau cyflog ar gyfer Aelodau, staff cymorth, a staff y Cynulliad; chwyddiant cyffredinol; y cynnydd arfaethedig mewn TAW; unrhyw gostau sy'n codi o ganlyniad i weithredu argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol; a goblygiadau gweithredol sefydlu cyfleuster newydd y Pierhead i ymwelwyr. Mae'r Comisiwn yn derbyn y bydd costau o'r fath yn anorfod a darparodd rai amcangyfrifon dangosol wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor Cyllid.

19. Nodwyd mai'r ffigurau a ganlyn yw'r costau hysbys a gaiff eu talu gan ddefnyddio arian o'r gronfa wrth gefn a'r arbedion:

| | |
|---|---|
| Codiad cyflog i Aelodau/staff cymorth/ staff y Cynulliad | £500,000 |
| Taliad olaf y rhwydwaith unedig | £250,000 |
| Y Pierhead | £45,000 |
| Staff ychwanegol | £100,000 |
| Adolygiad annibynnol | £75,000 |
| Cyfanswm | £970,000 |

20. Fodd bynnag, oherwydd ei bod yn angenrheidiol ar hyn o bryd, dim ond amcangyfrifon eang yw'r costau hyn ac ni chadarnhawyd hwy eto. Yn ogystal, er bod rhai penawdau yn y gyllideb yn adlewyrchu codiadau hysbys neu ddisgwyliedig mewn prisiau, ni roddwyd arian wrth gefn ar gyfer chwyddiant prisiau cyffredinol, y bydd yn rhaid ei ariannu hefyd gan ddefnyddio arbedion ac arian wrth gefn yn y ffordd hon.

21. Dywedodd y Comisiwn ei fod yn bwriadu talu'r costau hyn drwy ddefnyddio arian wrth gefn a thrwy sicrhau arbedion a mesurau effeithlonrwydd pellach.

22. Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor Cyllid, eglurodd y tystion fod swm yr arian wrth gefn yn amrywio yn ystod y flwyddyn, a'i fod yn cynyddu pan wneir arbedion ac yn gostwng wrth i arian gael ei drosglwyddo i linellau cyllideb eraill pan gadarnheir costau ychwanegol.

23. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried bod rheoli'r defnydd o arbedion a symiau eraill na neilltuwyd yn y ffordd hon yn anghyffredin ac yn fwy cymhleth na'r dull syml y mae cyrff cyhoeddus eraill fel arfer yn ei fabwysiadu. Fel arfer, cedwir arian wrth gefn yn ganolog i dalu am gostau digwyddiadau na ddisgwylir ac na ellir eu rhagweld. Ym marn y Pwyllgor Cyllid, mae dull presennol y Comisiwn yn llai tryloyw na'r arfer o gynnwys darpariaeth benodol yn y llinellau cyllideb addas, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos bod amcangyfrifon costau dangosol ar gyfer pwysau hysbys wedi cael eu gwneud. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r gorau i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn yn y modd hwn.** Dylid pennu lefel realistig ar gyfer arian wrth gefn, efallai 1.0 – 1.5% o'r gwariant, a dylid ei ddiogelu a sicrhau ei fod ar gael i'w ddefnyddio os oes angen ymateb i amgylchiadau nas rhagwelwyd. Dyma'r prif ddefnydd o gyllideb wrth gefn fel arfer. Dylid nodi pob gwariant arall yn y gyllideb ddrafft.

### Arbedion effeithlonrwydd

24. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi ymdrechion parhaus y Comisiwn i wneud arbedion effeithlonrwydd, sy'n parhau. Fodd bynnag, er mwyn bod yn arbediad effeithlonrwydd, rhaid i arbediad sicrhau budd heb wneud niwed sylweddol i lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r Cynulliad. Dylai hefyd fod yn arbediad a wnaed oherwydd newid yn y gwasanaethau a ddarperir yn hytrach nag yn swm dros ben a gafwyd ar ddiwedd y flwyddyn ar hap a damwain. Yn ogystal, fel y nodwyd yn

ein hadroddiad ar gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2008-09, ni fyddai'r Pwyllgor Cyllid yn dymuno i arbedion o'r fath gael eu gwneud ar draul llwyth gwaith a morâl staff. O ran hynny, rydym yn falch i nodi'r sylwadau cadarnhaol iawn a wnaed gan yr aseswr "Buddsoddi mewn Pobl" annibynnol ac nid ydym am weld dirywiad yn y sefyllfa pan adolygir yr achrediad.

25. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r arbedion o £373,000 a gyhoeddwyd gan y Comisiwn yn Atodiad 5 o Adroddiad Rheolaeth Ariannol 30 Mehefin 2009. Mae hefyd yn nodi bod nifer o'r arbedion hyn yn cael eu disgrifio fel arian a 'ddychwelwyd' o gyllidebau amrywiol ac **mae'n gofyn i'r Comisiwn egluro ai goramcangyfrifon yn unig yw'r rhain neu a ydynt yn arbedion 'effeithlonrwydd' gwirioneddol.**

26. Yn olaf, mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn ei bod yn bosibl y bydd y Comisiwn yn ceisio lleihau costau o bryd i'w gilydd drwy ostwng lefel rhai gwasanaethau, neu drwy gael gwared ar rai gwasanaethau'n gyfan gwbl hyd yn oed, mewn sefyllfaoedd lle mae'r galw'n isel iawn. Mae hyn i'w weld yn gwbl dderbyniol ond, mewn amgylchiadau o'r fath, byddem yn disgwyl i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud dim ond yn dilyn proses o ymgynghori ac ymgysylltu ag Aelodau.

**Gweithdrefnau yn y dyfodol**

27. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi ymdrech y Comisiwn i sicrhau gwell gwerth am arian wrth gyflenwi gwasanaethau'r Cynulliad ac, i gadarnhau'r gefnogaeth honno, **mae'n gwneud yr argymhellion a ganlyn** i helpu i wella tryloywder cyllidebau yn y dyfodol:

- Dylai llinellau cyllideb ddangos amcangyfrif gorau'r Comisiwn o'r costau sy'n debygol o godi. Lle bo elfen o ansicrwydd o ran y costau (ee cost setliadau cyflog yn y dyfodol, faint o staff sy'n cael eu recriwtio), dylid nodi hynny'n glir;

- Dylid cynnwys arbedion a gynlluniwyd sy'n hysbys pan gaiff y gyllideb ei phennu yn y llinellau cyllideb addas o'r cychwyn a dylid eu hegluro yn y papur ar y gyllideb;

- Dylid ychwanegu cronfa ddarbodus wrth gefn i'r gyllideb i'w defnyddio ar gyfer gwariant gwirioneddol nas rhagwelwyd ac na chynlluniwyd ar ei gyfer. Yn unol â hynny, dylid ailasesu swm yr arian wrth gefn yng ngoleuni'r maen prawf newydd hwn;

- Yn ogystal, os nad oes digon o arian wrth gefn yn y gronfa wrth gefn mewn gwirionedd, mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu ynglŷn â chadernid cyllideb y Comisiwn;

- Dylid addasu trefniadau mewnol y Comisiwn ar gyfer rheoli'r gyllideb fel eu bod yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer awdurdodi trosglwyddo arian rhwng penawdau'r gyllideb yng ngoleuni'r wybodaeth uchod;

- Dylid neilltuo arbedion mewn llinellau cyllideb sy'n ychwanegol i'r rheiny sydd wedi cael eu cynnwys o'r dechrau yn glir i linellau cyllideb eraill lle na ellir osgoi gorwario, neu eu rhyddhau i'r gyllideb floc ehangach a'u hegluro yn y cyfrifon blynyddol. Lle nodir arbedion o'r fath yn ystod y flwyddyn, dylid gostwng y symiau a neilltuwyd i ddeiliaid y gyllideb cyn gynted â phosibl;

- Dylid talu am unrhyw orwariant na ellir ei osgoi ar linellau cyllideb gan ddefnyddio arbedion y disgwylir eu gwneud mewn llinellau cyllideb eraill cyn i'r arian gael ei drosglwyddo i'r gronfa arian wrth gefn;

- Yn gyffredinol, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn disgwyl i gyllideb y Comisiwn fod yn ddigonol iddo allu darparu lefel gwasanaeth y mae gan y Cynulliad hawl iddo, a fydd yn cynnwys swm tryloyw addas ar gyfer costau gwirioneddol wrth gefn ond nid unrhyw symiau wrth gefn cudd eraill.

28. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod nad oes llawer o amser ar gael yn ystod y cam hwn o broses y gyllideb ac nid yw am lesteirio'r broses drwy ofyn i'r Comisiwn gyflwyno'r gyllideb mewn ffordd fwy tryloyw. **Fodd bynnag, mae'n gofyn i'r ffigurau o fewn y cynnig cyllideb gael eu hailgyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid erbyn diwedd y flwyddyn galendr ar y sail a ddisgrifir uchod fel bod darlun tryloyw llawn o gynlluniau'r Comisiwn a llinell sylfaen glir ar gyfer cylch y gyllideb y flwyddyn nesaf.**

**Y Bwrdd Taliadau**

29. O ganlyniad i weithredu argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol, o 2011-12, bydd y swm a gaiff ei wario ar gyflog, lwfansau a staff cymorth yr Aelodau, i bob pwrpas, yn cael ei bennu gan y Bwrdd Adolygu arfaethedig, yn dibynnu os yw'r Mesur Cynulliad angenrheidiol yn llwyddo. Bydd gwariant o'r fath yn rhan sylweddol (oddeutu 28%) o gyllideb y Comisiwn ac, yn hanesyddol, ni wariwyd yr holl arian o'r llinell gyllideb hon oherwydd bod rhai elfennau ohoni'n seiliedig ar alw.

30. Ar hyn o bryd, dim ond un swm i dalu am ddefnydd adnoddau net y Comisiwn y mae'r cynnig cyllideb yn ei awdurdodi. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell, yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Taliadau, y dylai fod gan y Comisiwn symiau wedi'u hawdurdodi ar wahân ar gyfer (a) gwariant a bennir gan y Bwrdd a (b) gweddill yr arian a fydd yn parhau i fod o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn.**

**<u>Dogfennau ar y gyllideb</u>**

31. Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi synnu bod y Papur Briffio Ategol ar gyfer Cynigion Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad wedi cael ei gyflwyno gan y Comisiwn yn ei gyfarfod gyda'r Pwyllgor Cyllid. Roedd y ddogfen hon yn cyflwyno llawer iawn o wybodaeth ychwanegol ac roedd yn egluro nifer o'r ffigurau yng nghyllideb y Comisiwn. Ni all y Pwyllgor Cyllid weld pam na

chafodd ei gyhoeddi yr un pryd â'r gyllideb ddrafft ac mae'n nodi y gellid ystyried bod ei gyflwyno yn y ffordd hon yn torri Rheol Sefydlog 10.39, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bapurau fod ar gael (lle bo hynny'n ymarferol) o leiaf dau ddiwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ddiolchgar am y sicrwydd a roddodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad y bydd unrhyw bapurau briffio ategol yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno cyn y cyfarfod. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn i gynigion cyllideb yn y dyfodol gael eu hategu gan wybodaeth ddigonol, sy'n ddigon tryloyw, fel nad oes angen papur briffio ychwanegol.**

## *Casgliadau*

32. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn bod angen y gyllideb atodol arfaethedig ar gyfer 2009-10. Mae'n croesawu agwedd hirdymor y Comisiwn tuag at y buddsoddiad hwn ac mae ganddo ddiddordeb mewn gweld casgliadau profion Swyddfa Archwilio Cymru ar resymoldeb y rhagdybiaethau ariannol sy'n ategu penderfyniad y Comisiwn. Mae'n gofyn i'r Comisiwn ystyried paratoi papur esboniadol llawn ar gyfer cyllidebau atodol yn y dyfodol, a fyddai'n cynnwys manylion unrhyw newidiadau a'r rhesymau drostynt ac a fyddai'n cael ei osod ochr yn ochr â chynnig ffurfiol y gyllideb atodol.

33. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi cydnabyddiaeth Comisiwn y Cynulliad, yn ei gynigion cyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11, o'r hinsawdd economaidd anodd ac o'r angen i astudio pob gwariant mor fanwl â phosibl. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu ymrwymiad y Comisiwn i wneud arbedion effeithlonrwydd ond mae'n nodi nad yw tanwario yn y gyllideb yn ei hun yn cynrychioli arbediad effeithlonrwydd. Gwneir arbediad effeithlonrwydd drwy ganfod ffyrdd newydd o wneud pethau, a sicrhau'r un canlyniadau drwy ddefnyddio llai o adnoddau, neu drwy gael gwared ar weithgareddau diangen. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd am sicrhau na wneir arbedion effeithlonrwydd ar draul llwyth gwaith a morâl staff.

34. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu ynglŷn â sut y mae'r Comisiwn yn cynnig rheoli sut y defnyddir arbedion a symiau eraill nas neilltuwyd drwy'r gronfa wrth gefn. Mae'n credu bod y dull hwn yn anarferol, yn anhryloyw ac yn fwy cymhleth na'r dull syml y mae cyrff cyhoeddus fel arfer yn ei fabwysiadu. Mae hefyd yn teimlo ei fod yn lleihau'r tryloywder y bu'r Comisiwn yn awyddus i'w gael o'r cychwyn. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r mater hwn ac, er nad yw'n dymuno gohirio'r cynnig cyllideb, mae wedi gofyn i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno ei gyllideb ddrafft maes o law gan ddefnyddio'r fformat a argymhellwyd.

**Angela Burns AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**